# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 22 Chwefror 2021

## SL(5)740 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Diben y Rheoliadau hyn yw gwarchod bioddiogelwch a chefnogi masnach drwy sicrhau bod mesurau rheoli ffytoiechydol effeithiol yn parhau i weithredu rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr ac o fewn Prydain Fawr mewn perthynas â Nwyddau Cymwys. Mae'n hwyluso'r polisi o fynediad dirwystr i'r farchnad mewn perthynas â Nwyddau Cymwys.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau er mwyn caniatáu symud Nwyddau Cymwys i Brydain Fawr o dan Basbort Planhigion yr UE. Unwaith y bydd y Nwyddau Cymwys ym Mhrydain Fawr, caiff Pasbort Planhigion yr UE barhau i gyd-deithio â nhw.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:** 02 Chwefror 2021
**Yn dod i rym ar:**

## SL(5)742 – Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013") i gynyddu'r hawl i absenoldeb mabwysiadydd o ddwy wythnos i 26 wythnos. Bydd hyn yn golygu y bydd yr un cyfnodau o absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb mabwysiadydd ar gael o dan Reoliadau 2013

Yn y gorffennol, roedd uchafswm y cyfnod ar gyfer absenoldeb mabwysiadydd y gellid ei ragnodi drwy reoliadau wedi'i gyfyngu at gyfnod heb fod yn hwy na dwy wythnos gan adran 26(3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Cafodd y cyfyngiad hwn ei ddileu gan adran 61(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud nifer o newidiadau i gyflwyno trefniadau ar gyfer absenoldeb mabwysiadydd sy'n debyg i'r trefniadau sydd eisoes yn eu lle ar gyfer absenoldeb mamolaeth. Yn benodol, mae'r Rheoliadau yn:

- rhagnodi amodau y mae rhaid i aelod eu bodloni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer absenoldeb mabwysiadydd, yn ogystal â'r gweithdrefnau ar gyfer amrywio dyddiad dechrau a hyd absenoldeb mabwysiadydd;
- yn darparu mai cyfnod absenoldeb mabwysiadydd yw 26 wythnos oni bai bod yr aelod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r gwrthwyneb (o dan reoliad 14) neu'n terfynu'r cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd (o dan reoliad 17A), ac yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfnod absenoldeb pan fabwysiadir mwy nag un plentyn fel rhan o'r un trefniant;
- yn rhagnodi pryd y caniateir i gyfnod absenoldeb mabwysiadydd ddechrau;
- yn darparu, yn ddarostyngedig i'r rheoliad 16 newydd, y caniateir i aelod ddewis pryd y mae ei absenoldeb mabwysiadydd yn dechrau;
- yn rhagnodi sut y caiff aelod derfynu cyfnod absenoldeb mabwysiadydd; ac
- yn cymhwyso ar gyfer absenoldeb mabwysiadydd yr un weithdrefn ar gyfer pennu a gaiff aelod gyflawni dyletswyddau penodol yn ystod ei absenoldeb mabwysiadydd â'r weithdrefn ar gyfer aelodau sydd am gyflawni dyletswyddau penodol yn ystod absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb rhiant.

**Rhiant-Ddeddf:** Mesur Llywodraeth Leol 2011
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:**